Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Marchnadoedd manwerthu: adolygiad a chynigion ar gyfer gwella

**Taflen ffeithiau 98** 25.03.11 www.ofgem.gov.uk

**Mae Ofgem yn cynnig newidiadau radical er mwyn gwneud i'r farchnad ynni weithio'n effeithiol i ddefnyddwyr.**

## Cylch gwaith yr adolygiad

Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2010. Y brîff oedd asesu effeithiolrwydd y farchnad ynni manwerthu, ymchwilio i ba mor dda roedd y mesurau y gwnaethom eu rhoi ar waith yn dilyn yr Ymchwiliad i Gyflenwadau Ynni yn 2008 yn gweithio a phenderfynu a oedd angen camau gweithredu pellach. Ar yr un pryd, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad a oedd yn dangos bod yr elw ar dariff tanwydd deuol safonol wedi codi i tua £90 y cwsmer y flwyddyn ym mis Tachwedd, sy'n gynnydd o 38 y cant ers mis Medi. Roedd hwn yn arwydd arall y dylem adolygu'r farchnad.

### Casgliadau

Canfu'r adolygiad fod cystadleuaeth yn y farchnad manwerthu ynni yn cael ei hatal gan gymysgedd o dariffau cymhleth, ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr, diffyg tryloywder a dylanwad y chwe phrif gyflenwr ynni - Nwy Prydain, EDF Energy, E.On, RWE npower, Scottish Power a Scottish and Southern Energy - ar y farchnad ynni.

## Prisio cymhleth

### Pryder

Defnyddir yr un pibellau a gwifrau i gyflenwi nwy a thrydan i gartrefi defnyddwyr, waeth pwy yw'r cyflenwr, felly pris yw un o'r ffyrdd pwysig y gall cwmnïau gystadlu.

Fodd bynnag, mae strwythurau prisio cyflenwyr yn ei gwneud yn anodd eu cymharu. Mae rhai yn cynnig tâl sefydlog ac yna gyfradd unffurf ar gyfer yr ynni a ddefnyddir. Mae eraill yn gweithredu strwythur dwy haen ac nid oes ganddynt dâl sefydlog. Mae hyn yn golygu eu bod yn codi un pris ar gyfer defnydd hyd at lefel benodol ac yna gyfradd wahanol, is fel arfer, ar gyfer unrhyw ddefnydd ychwanegol.

Mae'r prisiau a godir ar gyfer y ddwy haen yn amrywio rhwng cwmnïau yn yr un modd â'r lefel a bennir ar gyfer symud y defnyddiwr o'r haen gyntaf i'r ail. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddefnyddwyr gyfrifo'r pris y maent yn ei dalu fesul uned a'i gymharu â'r pris fesul uned a gynigir gan gyflenwr arall.

Mae nifer y tariffau sydd ar gael wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf o ychydig o dan 200 ym mis Ionawr 2008 i fwy na 300 ar ddechrau 2011. Dangosodd ymchwil gan Ofgem fod 70 y cant o'r rheini a holwyd yn cael eu drysu gan nifer y tariffau sydd ar gael ar y farchnad.

Nawr, mae llai o gwsmeriaid yn newid cyflenwr, er yr arbedion sylweddol sydd ar gael i lawer. Yn 2006, gwnaeth 22 y cant o ddefnyddwyr newid eu cyflenwr trydan a gwnaeth 19 y cant newid eu darparwr nwy. Yn 2010, y ffigurau oedd 17 y cant ar gyfer trydan a 15 y cant ar gyfer nwy.

(Prisio cymhleth - parhad)

Gall yr arbedion a geir wrth newid cyflenwr fod yn sylweddol. Y llynedd, gwnaeth cwsmer tanwydd deuol a newidiodd o gynnig credyd safonol gyda'i gyflenwr i gynnyrch tebyg gyda'r cyflenwr a oedd yn cynnig y ddêl rataf ar gyfer credyd safonol arbed £240 ar gyfartaledd dros y flwyddyn.

Ond hyd yn oed pan mae defnyddwyr yn newid, mae'r cymhlethdod o ran prisio yn golygu bod rhai yn pryderu nad ydynt wedi cael cynnig gwell.

### Diwygiad arfaethedig

Rydym yn cydnabod bod newid cyflenwr a bygwth newid cyflenwr yn hanfodol ar gyfer cystadleuaeth. Po fwyaf y risg y bydd cwsmeriaid yn newid cyflenwr, y caletaf y bydd cwmnïau'n brwydro i gadw eu cwsmeriaid eu hunain, neu demtio defnyddwyr i ffwrdd oddi wrth eu cystadleuwyr.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cymhlethdod o ran y wybodaeth am dariffau a ddarperir gan gyflenwyr, mae Ofgem yn cynnig ei gwneud yn syml i ddefnyddwyr domestig gymharu prisiau a dewis cynnig gwell.

Byddai'r cynnig yn cyfyngu ar nifer y tariffau ar gyfer cynhyrchion gwyrdd safonol gan bob cyflenwr i ddim ond un ar gyfer pob dull talu (debyd uniongyrchol, credyd safonol a mesuryddion rhagdalu).

Rydym hefyd yn cynnig safoni fformat y tariffau hyn ar gyfer pob cyflenwr, gan ganiatáu i gyflenwyr gystadlu ar un pris "fesul uned". Yna byddai defnyddwyr yn gallu dweud yn syth a allent arbed arian, naill ai drwy newid cyflenwr neu symud i gynnig newydd. Byddai hwn yn ddiwygiad mawr a fyddai'n effeithio ar y 75 y cant o ddefnyddwyr sy'n cael cynhyrchion gwyrdd safonol ar hyn o bryd.

Byddai cyflenwyr yn rhydd i gynnig nifer anghyfyngedig o gynhyrchion tymor sefydlog o hyd, fel y gallent barhau i arloesi a rhoi dewis gwirioneddol i'w cwsmeriaid. Fodd bynnag, byddem yn ceisio sicrhau bod gan gwsmeriaid wybodaeth lawn am y telerau ac amodau a'u bod yn cydsynio â hwy cyn prynu'r cynhyrchion hyn. Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddyfynnu prisiau ar gyfer pob cynnyrch tymor sefydlog ar sail y gellir ei chymharu'n hawdd â'r pris fesul uned ar gyfer eu cynhyrchion gwyrdd safonol.

## Ymddygiad gwael ymhlith cyflenwyr ac ymateb i gynigion gwella'r Ymchwiliad

### Pryder

Canfu Ofgem fod ymateb y diwydiant i'r diwygiadau a gynigiwyd yn sgîl yr Ymchwiliad yn 2008 wedi bod yn dameidiog, ac yn wael mewn rhai achosion. Rydym wedi'n siomi gan ymateb cyflenwyr i lawer o ddiwygiadau'r Ymchwiliad a lansiwyd ymchwiliadau ffurfiol i ganfod p'un a yw cyflenwyr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau eu trwyddedau. Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i arferion gwerthu a marchnata pedwar o'r chwe chyflenwr mawr; EDF Energy, RWE npower, Scottish Power a Scottish and Southern Energy. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r modd y mae Nwy Prydain, EDF Energy a RWE npower yn delio â chwynion gan gwsmeriaid ac rydym wedi lansio ymchwiliad i'r gwahaniaeth yn y prisiau a godir gan Scottish Power ar gyfer dulliau talu credyd safonol a debyd uniongyrchol.[1]

### Diwygiad arfaethedig

Yn ogystal â chamau gorfodi, mae Ofgem yn cynnig atgyfnerthu nifer o amodau ei drwydded, er enghraifft mewn perthynas â maint a ffurf y wybodaeth a gaiff ei chynnwys mewn biliau a datganiadau blynyddol. Y nod yw sicrhau bod cyflenwyr yn glynu at ysbryd a bwriad y mesurau a bod cyflenwyr yn cael llai o ryddid o ran y modd y maent yn dehongli eu rhwymedigaethau.

Yn y farchnad fusnes, rydym yn pryderu am y posibilrwydd y gall y weithdrefn wrthwynebu gael ei defnyddio i atal cwsmeriaid busnes rhag newid cyflenwr. Dengys ein tystiolaeth bod gan rai cyflenwyr lefel uchel o wrthwynebiadau a/neu nifer sylweddol o wrthwynebiadau a gaiff eu tynnu'n ôl.


[1] Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ddylai'r ffaith bod Ofgem wedi lansio ymchwiliad awgrymu bod unrhyw amod trwydded wedi'i dorri

## Hylifedd a gwella mynediad i'r farchnad drydan gyfanwerth

### Pryder

Mae gan Ofgem bryderon o hyd ynghylch mynediad i'r farchnad gyfanwerth ar gyfer newydd-ddyfodiaid a chyflenwyr a chynhyrchwyr annibynnol. Mae angen ymyriad gan Ofgem er mwyn darparu hylifedd yn y farchnad gyfanwerth i annog newydd-ddyfodiaid a sicrhau y gall cyfranogwyr yn y farchnad gystadlu yn erbyn chwaraewyr sydd wedi'u hintegreiddio'n fertigol eisoes.

**Cynhyrchiant PF: Cyfeintiau wedi'u mesur 2010**




Ffynhonnell: Adroddiad Neta

### Diwygiad arfaethedig

Yn amodol ar ymgynghoriad a chanlyniad ein hasesiad o'r farchnad bŵer gyfanwerth, rydym yn cynnig ymyrryd drwy gyfrwng dwy fenter. Yn gyntaf, rydym yn cynnig amod trwydded newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r chwech mawr arwerthu hyd at 20 y cant o'u cynhyrchiant pŵer i'r farchnad drwy Arwerthiant Gorfodol rheolaidd. Bydd yn orfodol i'r chwech mawr roi pŵer ar werth. Dylai hyn helpu newydd-ddyfodiaid posib i'r farchnad gyflenwi gael mynediad i'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion cyfanwerth sydd eu hangen arnynt. Bydd hefyd yn golygu y gellir pennu prisiau trwy broses agored a chystadleuol. Yn ail, rydym yn cynnig amod trwydded newydd i lunio trefniadau Creu Marchnad Gorfodol, er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn y farchnad yn gallu masnachu'n barhaol a lliniaru risgiau o ran anghydbwysedd. Rydym yn disgwyl y byddai'r trefniadau hyn o fudd arbennig i gyfranogwyr sy'n cael anawsterau i gael mynediad i'r farchnad ar hyn o bryd.

Byddai ein diwygiadau yn ategu ac yn cynorthwyo diwygiadau'r Llywodraeth i'r farchnad drydan, drwy gynyddu hylifedd yn y farchnad drydan gyfanwerth.

## Elw a Thryloywder

### Pryder

Nid yw'r pris y mae cyflenwyr ynni yn ei dalu am nwy a phŵer yn y marchnadoedd cyfanwerth, a sut y mae hyn yn effeithio ar y pris maent yn ei godi ar ddefnyddwyr manwerthu, yn dryloyw. Mae hyn yn bygwth lleihau hyder y cyhoedd yn y farchnad a'i thegwch. Yn yr adolygiad diweddaraf hwn o'r farchnad, mae Ofgem wedi canfod am y tro cyntaf dystiolaeth bod y chwe chyflenwr mawr wedi newid prisiau mewn ymateb i gostau cynyddol yn gyflymach nag y gwnaethant eu gostwng pan ostyngodd y costau.

Pe bai'r holl gyflenwyr wedi gohirio eu cynnydd mewn prisiau dros y gaeaf fel y gwnaeth EDF Energy (hynny yw hyd at, ond heb gynnwys, mis Mawrth 2011), rydym yn amcangyfrif y byddai defnyddwyr wedi bod ar eu hennill o £250m. O ran defnyddwyr ar dariffau safonol, byddai hyn wedi bod yn gyfystyr ag arbediad o £10 i bob cwsmer cartref.

Dyma pam bod ein holl ddiwygiadau wedi'u targedu at sicrhau bod cystadleuaeth yn gweithredu fel ffordd effeithiol o ffrwyno costau.

### Diwygiad arfaethedig

Ar ôl yr Ymchwiliad, gwnaethom fynnu bod cwmnïau yn datgelu mwy o wybodaeth am eu busnesau manwerthu. Mae'r adroddiadau segmentol cyntaf bellach wedi'u cyhoeddi ond nid ydynt yn ddigon tryloyw o hyd. Nawr, mae Ofgem wedi cyhoeddi ei ddadansoddiad o'r cyfrifon hyn ac rydym yn penodi cyfrifwyr annibynnol i ymchwilio ymhellach.

## Y camau nesaf

Rydym wedi rhoi hyd at 1 Mehefin 2011 i gwmnïau ymgysylltu'n adeiladol â'n cynigion neu gynnig eu diwygiadau eu hunain i ymateb i'n pryderon. Os credwn, yn dilyn ymgynghoriad, nad yw diwygiadau priodol yn debygol o fynd i'r afael â'r niwed a nodwyd i ddefnyddwyr, naill ai oherwydd gwrthwynebiad gan y diwydiant neu adborth ynghylch addasrwydd y cynigion cychwynnol, byddwn yn ystyried opsiynau amgen. Byddai opsiynau o'r fath yn cynnwys atgyfeiriad at y Comisiwn Cystadleuaeth. Rydym hefyd yn ystyried a ddylid gofyn i'r Llywodraeth am bwerau ychwanegol ai peidio mewn nifer o feysydd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Chris Lock, Uwch Swyddog y Wasg** 020 7901 7225 email chris.lock@ofgem.gov.uk
**Alison Wright, Swyddog y Wasg** 020 7901 7217 email alison.wright@ofgem.gov.uk